	Promote schemes that visually illustrate that Welsh is welcomed in the workplace	Continue to develop initiatives that create an environment which fosters the use of Welsh by staff, e.g. badges, posters, lanyards, use of <i>Cymraeg</i> logo on e-mail	On-going	Welsh Language Services IT	All services

Policy Area	Aims	Activity	Target by 2021	Council service(s)	Potential partner(s)
	Distribute Welsh language promotional material to staff	<p>and intranet, e-mail signatures and out-of-office messages</p> <ul style="list-style-type: none"> • How to get a translation • Staff guidelines booklet - <i>Welsh What's Changed?</i> • Badges, lanyards, posters • ICT booklet: <i>Welsh @your fingers</i> • Welsh for Adults 	On-going	Welsh Language Services	

Policy Area	Aims	Activity	Target by 2021	Council service(s)	Potential partner(s)
		Prospectus <ul style="list-style-type: none"> • Mouse mats • <i>Being Bilingual</i> booklet • Corporate messages summary leaflet 			
	Develop confidence in the use of written Welsh	Install Cysill and Cysgair (Welsh language grammar and spell checkers) on all staff and elected members' computers and iPads	All computer packages installed and operational by March 2017	IT	All services

Policy Area	Aims	Activity	Target by 2021	Council service(s)	Potential partner(s)
	Develop bilingual intranet interface and menus and bilingual interface for web applications Encourage staff and Elected Members to use Welsh in internal and external meetings and in presentations	Liaise with other local authorities to investigate joint investment in developing bilingual interfaces Provide training on presentational skills in Welsh and explore the practicalities of providing translation facilities at internal meetings	Install bilingual interfaces by September 2017 Draw up a training programme by March 2017	IT Welsh Language Services Members' Services Human Resources	Customer Care University of South Wales Welsh For Adults Centre

PART 2

Policy Area	Aims	Activity	Target by 2021	Lead Partner	Potential partners
Education - Early Years provision	Increase number of Cylchoedd Ti a Fi and Cylchoedd Meithrin	Work with Mudiad Meithrin and Flying Start to ensure that provision is available within easy reach of all the main population centres	Increase number of Cylchoedd Ti a Fi and Cylchoedd Meithrin by 50%	Mudiad Meithrin	Flying Start; Family Information Service
	Increase the number of Parenting/Family Sessions run by the 'Cymraeg i Blant' scheme	Increase the number of parents who send their children to WM education	Increase the number of Parenting / Family Sessions by 50%	Cymraeg i Blant scheme	Mudiad Meithrin
	Provide basic language training for	Organise language sessions that are	Every playgroup and day care	University of South Wales Welsh for Adults	Wales PPA; PACEY, NDNA Cymru;

	workers in mainly English-medium settings	appropriate for early years provision	nursery to be provided with opportunities to attend language training	Centre	Flying Start
	Improve language progression from Cylchoedd Meithrin to Welsh-medium education	Provide information to parents about the benefits of Welsh-medium education and awareness training for Meithrin staff	Increase language progression from Cylchoedd Meithrin to WM schools to 90%	Mudiad Meithrin	Flying Start
Further education sector	Increase Welsh-medium provision in Coleg y Cymoedd	Develop 'Iaith ar Waith' units in Customer Care across other learning areas	Consolidate provision in Childcare, Health and Social Care, Catering and	Coleg y Cymoedd	Colegau Cymru

			Tourism and extend to Creative Industries, Engineering and Construction		
	Increase Welsh-medium provision in Coleg y Cymoedd	Develop bilingual provision in a few mainstream courses e.g. Business, Childcare, Health and Social Care	Ensure that WM units are available in at least five subject areas by 2021	Coleg y Cymoedd	Colegau Cymru
	Increase number of learners choosing Welsh-medium modules or units in Coleg y Cymoedd	Raise greater awareness amongst Welsh-speaking learners of bilingual provision available and job	Increase number of learners studying part of their courses through the medium of	Coleg y Cymoedd	Colegau Cymru

	Build on links between Coleg y Cymoedd and Welsh-medium secondary schools	opportunities requiring bilingual skills Explore the possibilities of collaborating on WM provision, including GCSE courses	Welsh by 50% Agree a collaborative programme of delivery by September 2017	Coleg y Cymoedd	Welsh-medium schools Education & Lifelong Learning
	Provide social opportunities for college learners to meet and use the Welsh language	Organise an annual programme of events which is popular and wide-reaching in its appeal	Publish programme of events at the beginning of each term and distribute through social media and internet	Coleg y Cymoedd	Menter Iaith
Language Transfer in the Home	Ensure that more parents use Welsh as	Increase the number of activities	Increase the number of activities by	Cymraeg i Blant scheme	Mudiad Meithrin University of South Wales

	the language of the home	organised by the 'Cymraeg i Blant' scheme which encourages parents to speak Welsh to their children	100%		Welsh for Adults Centre
	Raise awareness of the importance of language transmission amongst young Welsh speaking adults	Include general language awareness programmes in PSE courses in college	The college to arrange language awareness courses by 2017-18	Coleg y Cymoedd	Menter Iaith Education & Lifelong Learning
Welsh for Adults	Increase the number of adults learning Welsh	Increase marketing activity and extend number of courses available at all levels	Increase number of enrolments by 30%	University of South Wales Welsh for Adults Centre	National Welsh for Adults Centre

	<p>Increase the number of learners progressing from Entry and Foundation levels to Higher level courses</p> <p>Provide more language courses in the workplace at various levels of proficiency to enable more employees to work bilingually</p>	<p>Provide targeted support and guidance to encourage learners to progress to higher levels of fluency</p> <p>Increase workplace provision in the public and voluntary sectors for beginners and tentative Welsh speakers</p>	<p>Increase progression rates to higher levels by 20%</p> <p>Increase workplace provision by 100%</p>	<p>University of South Wales Welsh for Adults Centre</p> <p>University of South Wales Welsh for Adults Centre</p>	<p>National Welsh for Adults Centre</p> <p>National Welsh for Adults Centre</p>
	<p>Provide informal opportunities for Welsh learners to meet and</p>	<p>Organise weekly social activities and 'sesiynau sgwrs' (chitchat</p>	<p>Establish 5 locations in the area to hold weekly</p>	<p>University of South Wales Welsh for Adults Centre</p>	<p>Menter Iaith</p>

	practice their language skills	sessions) to increase confidence and fluency levels	opportunities for informal use of Welsh		
	Provide opportunities for Welsh learners to integrate into Welsh speaking networks and organisations	Plan a varied programme of social activities to bring Welsh speakers and learners together	Draw up an annual calendar of events and provide marketing support	University of South Wales Welsh for Adults Centre	Menter Iaith
	Provide on-line opportunities for Welsh learners to practice their Welsh	Set up a designated on-line chat room/forum for Welsh learners in the area	To be established by September 2017	University of South Wales Welsh for Adults Centre	Menter Iaith
Community activities	Use communication technology as an information and	Further develop 'Echlysur' as a communication network which	Expand marketing of the networking platform and	Menter Iaith	Youth Engagement & Participation Service

	networking platform for Welsh speakers and learners	provides information to Welsh speakers and learners about activities, events, job opportunities etc	set a five year target of 5,000 contacts		Welsh-medium schools
	Use communication technology to keep in touch with pupils after they leave WM secondary schools	Ensure that contact details of as many school leavers as possible are added to the networking platform	Collect contact details on an annual basis	Menter iaith	Youth Engagement & Participation Service Welsh-medium schools
	Re-invigorate Clwb y Bont in Pontypridd as a thriving Welsh Language Centre for a	Work with trustees of Clwb y Bont to carry out a feasibility study, including a business case, to	Seek funding and carry out feasibility study by January 2018	Clwb y Bont	Menter iaith Council Welsh Government

	range of different partners	develop the centre as a powerhouse for language revitalisation			
--	-----------------------------	--	--	--	--

Implementation and monitoring

Council services will be required to develop their own Local Action Plans to identify how they will achieve the target(s) they are required to meet if the Strategy is to be successfully implemented by 2021.

Progress against targets will be monitored at an operational level by the Welsh Language Chief Officers Group and updates provided to the Senior Leadership Team every six months.

Reports on progress will be provided to the Cabinet's Welsh Language Steering Group as required but no less than twice a year. Information on the performance of Council services will then be provided to Fforwm Iaith Members.

Fforwm Iaith members will provide updates on the targets identified in Part 2 of the Action Plan at Fforwm Iaith meetings and the Chair of Fforwm Iaith will provide feedback to the Cabinet's Welsh Language Steering Group for information purposes.

It is hoped that in this way the Council and Fforwm Iaith members will be able to work collaboratively to meet the objective of increasing the number of Welsh speakers in the county by 2021 and address any difficulties at the earliest opportunity so that problems can be resolved swiftly and progress secured.

Cynllun Gweithredu i Hybu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf

Nod y Cynllun Gweithredu canlynol yw datblygu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid yn datblygu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf dros flynyddoedd lawer. Mae'n gynllun pum mlynedd sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg 3%
- cynyddu ei defnydd ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus
- codi ymwybyddiaeth o'i phwysigrwydd fel rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad cymoedd De Cymru

Mae'r Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu'r dull partneriaeth sy'n hanfodol i gyflawni'r nodau hyn. Mae dwy ran i'r Cynllun fel bod eglurder o ran swyddogaeth a chyfrifoldeb y Cyngor, a swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau o'r Fforwm Iaith ar gyfer cyflawni targedau.

Mae **Rhan 1** yn nodi'n fras y gweithgareddau a'r targedau y mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cyflawni, un ai drwy'u cyflenwi'n uniongyrchol neu drwy gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau partner;

Mae **Rhan 2** yn nodi'n fras y gweithgareddau a'r targedau y mae'r Fforwm Iaith yn gyfrifol am eu cyflawni o dan ei gytundebau ariannu gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

Cydnabyddir nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros weithgareddau a chyflawniad partneriaid fel y nodir yn Rhan 2 ond fe all y Cyngor fod mewn sefyllfa i gydweithio a chomisiynu aelodau o'r Fforwm Iaith i gyflenwi gweithgareddau ychwanegol er mwyn bwrw targedau'r Cyngor fel y nodir yn Rhan 1 o'r Cynllun Gweithredu.

Dylid nodi mai cyfrifoldeb y Cyngor yw'r strategaeth 5 mlynedd yn bennaf a'r Cyngor sy'n gyfrifol am ei rhoi hi ar waith yn unol â Safon 145 o Reoliadau'r Iaith Gymraeg 2015.

RHAN 1

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl
Addysg – Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar	Darparu hyfforddiant Cymraeg a gofal plant priodol ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar er mwyn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Gweithio gyda phrosiect <i>Cam wrth Gam</i> sy'n cyflwyno Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysg a Datblygiad Plant	Sicrhau bod 10 gweithiwr gofal plant o RhCT a'r ardal gyfagos yn cael eu hyfforddi'n flynyddol ac yn cael cymwysterau perthnasol	Dechrau'n Deg	'Cam wrth Gam' (Mudiad Meithrin)
	Cynyddu nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth blynyddoedd cynnar gyfrwng Cymraeg (CC)	Gweithio gyda'r Mudiad Meithrin a Dechrau'n Deg i hybu manteision addysg ac addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg	Cynyddu nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg (CC)	Dechrau'n Deg	Mudiad Meithrin; Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

		(CC)	50%		
	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn grwpiau chwarae a meithrinfeydd oriau dydd cyfrwng Saesneg yn bennaf	Cynnwys y Gymraeg mewn gweithgareddau chwarae i sefydlu patrymau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn Gymraeg	Nodi o leiaf 10 grŵp chwarae / meithrinfa oriau dydd sy'n gallu cyflwyno geiriau, brawddegau a phatrymau a chaneuon sylfaenol yn Gymraeg.	Dechrau'n Deg	PPA Cymru; PACEY, NDNA Cymru
Addysg – Sector Cynradd	Lansio ymgyrch marchnata eang i hybu manteision addysg cyfrwng Cymraeg a buddion dwyieithrwydd Cynyddu gallu	Dosbarthu taflen 'Bod yn Ddwyieithog' a chreu offer marchnata eraill i gynyddu'r niferoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Adleoli Ysgol	Lansio ymgyrch marchnata ar ddechrau 2017 a chynllunio cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddusrwydd a gweithgareddau parhaus o un flwyddyn i'r llall Cynyddu	Gwasanaethau'r Gymraeg Addysg	Menter Iaith; Yr Urdd; RhAG; Fforwm Iaith; Bwrdd Iechyd Bro Morgannwg Ysgol

ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau allweddol Cynyddu gallu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau allweddol	Gymraeg Tonyrefail i safle presennol Tonyrefail Primary School Ymestyn Ysgol Gymraeg Llwyncelyn i safle babanod Llwyncelyn gyferbyn	niferoedd o 60 o leiaf Cynyddu niferoedd o 100 o leiaf	Addysg	Ysgol
Ystyried effaith datblygiadau tai newydd ar dwf addysg cyfrwng Cymraeg Ymateb i ymgyrch Llywodraeth	Cynllunio ar gyfer y cynnydd tebygol yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd datblygu Cyflwyno'r Gymraeg fel prif gyfrwng addysgu	Llunio cynlluniau wrth gefn mewn ardaloedd wedi eu targedu yn arbennig yn ne'r sir Trafod y posibilïadau o gynnal peilot o'r	Addysg Addysg	Adfywio a chynllunio Ysgolion

	Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050	yn y Cyfnod Sylfaen mewn rhai ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	cynllun mewn 5 ysgol gynradd i ddatblygu sgiliau dwyieithog plant yn y Cyfnod Sylfaen dros y 5 mlynedd nesaf		
Addysg – Sector Uwchradd	Datblygu Siarter iaith sydd yn annog y defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ac yn y gymuned Cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg Cynyddu'r	Addasu'r Siarter iaith lwyddiannus a weithredwyd gan AALlau Gwynedd a Sir Gaerfyrddin Creu cynlluniau i gynyddu darpariaeth CC o ganlyniad i ragamcan o'r twf yn y sector cynradd Rhoi cymorth i	Datblygu Siarter iaith ar gyfer disgyblion sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith Sicrhau niferoedd cynyddol ym mhob ysgol uwchradd CC erbyn 2021 Nodi rhai ysgolion	Gwasanaethau'r Gymraeg Addysg Addysg	Consortiwm Canolbarth y De Menter iaith Yr Urdd Ysgolion Ysgolion

	cyfleoedd mewn ysgolion CS i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfarwyddyd	ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg (CS) i ddatblygu ar hyd y continwwm iaith	uwchradd CS sydd yn fodlon ac yn gallu cynyddu darpariaeth CC mewn ystod o bynciau		
	Galluogi dysgwyr i drosi o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd CA2	Trafod y posibilrwydd o sefydlu 'Cynllun Trochi' yn un o'r ysgolion uwchradd CC ar y cyd ag awdurdodau cyfagos	Nodi un ysgol CC a allai gefnogi 'Cynllun Trochi' ac yna marchnata ei argaeledd ar draws awdurdodau cyfagos	Addysg	Consortiwm Canolbarth y De; Ysgol
	Cefnogi dilyniant iaith o CA2 i CA3	Sicrhau bod yr ychydig nad ydynt yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd CC yn	Sicrhau cydweithredu priodol rhwng ysgolion uwchradd CS er	Addysg	Ysgolion

	<p>Sicrhau bod rhaglenni Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm ABCh mewn ysgolion uwchradd</p>	<p>parhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf</p> <p>Datblygu rhaglen waith</p> <p>Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i chyflwyno i gwricwlwm pob ysgol uwchradd</p>	<p>mwyn galluogi'r ddarpariaeth</p> <p>Pob dysgwr i ddeall cyfraniad y Gymraeg i hanes, diwylliant a gwead cymdeithasol Cymru</p>	<p>Addysg</p>	<p>Ysgolion Yr Urdd</p>
<p>Trosglwyddo'r iaith yn y Cartref</p>	<p>Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trosglwyddo'r iaith ymysg oedolion ifanc Cymraeg eu hiaith</p> <p>Codi</p>	<p>Cynnwys rhaglenni ymwybyddiaeth iaith cyffredinol mewn cyrsiau ABCh mewn ysgolion</p> <p>Trefnu cyrsiau</p>	<p>Pob ysgol i drefnu cyrsiau ymwybyddiaeth erbyn 2017-18</p> <p>Cyrsiau a</p>	<p>Addysg</p> <p>Gwasanaeth</p>	<p>Ysgolion</p> <p>Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Gwasanaethau'r Gymraeg</p> <p>Menter Iaith</p>

	ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trosglwyddo'r iaith ymysg teuluoedd	ymwybyddiaeth iaith a gweithgareddau i'r teulu sy'n targedu rhieni a phlant	gweithgareddau ymwybyddiaeth iaith i gael eu sefydlu mewn 6 chanolfan ar draws y sir	Cymunedau a Ffyniant	Cymraeg i Blant Mudiad Meithrin Gwasanaethau'r Gymraeg
	Trefnu ymgyrch marchnata yn targedu oedolion ifanc Cymraeg eu hiaith	Creu ap/fideo/taflen a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant	Chwilio am gyllid i greu ap, fideo a thaflen wybodaeth a chynllunio ymgyrch marchnata erbyn Medi 2017	Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid	Menter Iaith Cymraeg i Blant Yr Urdd Mudiad Meithrin
Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	Gweithio gyda phartneriaid allweddol i greu cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc i	Datblygu strategaethau ar y cyd sy'n galluogi'r Gymraeg i ddod yn iaith	Cyhoeddi strategaeth ar y cyd erbyn mis Hydref 2017	Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid	Menter Iaith Yr Urdd

	<p>ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol i gryfhau'r cyswllt rhwng iaith addysg a'r gymuned</p>	<p>gweithgareddau cymdeithasol a hamdden</p>			
	<p>Cynyddu nifer y gweithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant oed cynradd</p>	<p>Trefnu cyfres o weithdai i ddarparu ar gyfer ystod o ddiddordebau gwahanol, e.e. chwaraeon, drama, dawns, celf a chrefft, gemau cyfrifiadurol, gweithgareddau awyr agored ac ati</p>	<p>Rhaglen i'w chytuno a'i gweithredu erbyn Medi 2017</p>	<p>Gwasanaethau Hamdden Gwasanaethau Diwylliannol</p>	<p>Menter Iaith Yr Urdd</p>

	<p>Cynyddu nifer y gweithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant oed cynradd</p> <p>Rhoi cymorth i rieni sydd â phlant mewn ysgolion CC i leddfu pryderon ynghylch helpu gyda gwaith cartref</p>	<p>Sefydlu rhwydwaith o 'adrannau cymunedol' i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden</p> <p>Sefydlu Clybiau Gwaith Cartref mewn ysgolion CC i gefnogi rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg</p>	<p>Cynyddu'r ddarpariaeth bresennol 100%</p> <p>Trafodaethau i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol gyda'r bwriad o sefydlu Clybiau Gwaith Cartref erbyn Medi 2017</p>	<p>Gwasanaethau Hamdden</p> <p>Addysg</p>	<p>Yr Urdd</p> <p>Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Menter Iaith</p>
	<p>Annog mwy o ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan</p>	<p>Pob ysgol i gytuno ar Ddatganiad Cenhadaeth a</p>	<p>Pob Fforwm Defnydd o Iaith i gynnwys cynrychiolwyr o</p>	<p>Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad leuenctid</p>	<p>Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg</p>

	ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd CC	chôd ymddygiad a sefydlu Fforymau Defnydd o laith	bob blwyddyn ysgol ac i gael eu sefydlu erbyn Medi 2017		
	Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd CC i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	Parhau gyda Fforymau Pobl Ifanc ym mhob ysgol uwchradd CC a'u cefnogi i drefnu cyfres o weithgareddau cymdeithasol	Trefnu o leiaf 3 gweithgaredd Cymraeg arwyddocaol yn ystod pob blwyddyn ysgol	Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid	Menter Iaith Yr Urdd
	Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd CC ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth Defnyddio	Cefnogi clybiau ieuenctid CC presennol yn Rhydywaun, Llanhari, Pontypridd ac Aberdâr Datblygu gwefan,	Ymestyn y ddarpariaeth bresennol i gynnwys 3 lleoliad arall e.e. Llantrisant, Treorci Sefydlu Hwb	Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Gwasanaeth	Menter Iaith Yr Urdd TG

	<p>technolog gyfathrebu i hysbysebu cyfleoedd am swyddi sydd yn gofyn am sgiliau dwyieithog</p>	<p>ap a chyfeiriadur neilltuol i hysbysebu swyddi a phrentisiaethau sydd yn gofyn am sgiliau Cymraeg</p>	<p>rhannu gwybodaeth ar gyfer prif gyflogwyr yr ardal y gellir ei ddefnyddio i recriwtio staff a phrentisiaid dwyieithog</p>	<p>Cyflogaeth a Hyfforddiant Gwasanaethau Busnes</p>	<p>Menter Iaith Busnesau</p>
	<p>Darparu gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg</p>	<p>Cynnal adolygiad o anghenion gofal plant rhieni â phlant mewn addysg CC</p>	<p>Darparu gofal plant ar ôl ysgol neu ofal cofleidiol ym mhob ysgol sydd wedi nodi angen</p>	<p>Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar Addysg</p>	<p>Menter Iaith Ysgolion cyfrwng Cymraeg Clybiau Plant Cymru</p>
	<p>Darparu cyfleoedd gofal plant CC yn ystod gwyliau ysgol Cynyddu nifer y</p>	<p>Cynnal adolygiad o anghenion gofal plant yn ystod gwyliau ysgol Datblygu</p>	<p>Cynnal adolygiad o anghenion gofal plant yn ystod gwyliau ysgol Trefnu 3 diwrnod</p>	<p>Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar Addysg Gwasanaeth</p>	<p>Menter Iaith Clybiau Plant Cymru Menter Iaith</p>

	<p>gweithgareddau Cymraeg sy'n darparu ar gyfer budd teuluoedd</p>	<p>Ilwyddiant Parti Ponty a threfnu digwyddiadau tebyg i gyd-fynd â dathliadau'r Nadolig, Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi</p>	<p>hwyliog i'r teulu yn ystod y flwyddyn mewn rhannau gwahanol o'r fwrdeistref sirol</p>	<p>Marchnata ac Achlysuron</p>	<p>Yr Urdd</p>
	<p>Cynyddu nifer y gweithgareddau iaith Gymraeg sy'n darparu ar gyfer budd plant a phobl ifanc</p>	<p>Sicrhau bod gwersi nofio ar gael yn y Gymraeg mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg</p>	<p>Rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg i gynnig gwersi nofio yn y Gymraeg erbyn Ionawr 2018</p>	<p>Gwasanaethau Hamdden</p>	<p>Yr Urdd Ysgolion cyfrwng Cymraeg Coleg y Cymoedd</p>
	<p>Cynyddu nifer y gweithgareddau iaith Gymraeg sy'n darparu ar gyfer budd plant a phobl ifanc</p>	<p>Sicrhau bod ystod eang o weithgareddau ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc yn y llyfrgelloedd</p>	<p>Datblygu rhaglen o weithgareddau iaith Gymraeg fydd yn digwydd yn ystod hanner tymor a gwyliau'r haf</p>	<p>Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwasanaethau Diwylliannol</p>	<p>Llenyddiaeth Cymru</p>

Cynyddu cyfleoedd hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg	Sicrhau bod gwersi nofio ar gael mewn darpariaeth ar ôl ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at Lefel 1 o leiaf	Gwersi nofio hyd at Lefel 1 i fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob prif ganolfan hamdden erbyn Medi 2018	Gwasanaethau Hamdden	Yr Urdd
Cynyddu cyfleoedd hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg	Sicrhau bod clybiau ffitrwydd yn cynnwys ioga, troelli a chadw'n heini ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg	Ystyried y posibilrwydd sefydlu o leiaf 2 glwb ffitrwydd CC erbyn Medi 2017 a chynyddu'r nifer dros y pum mlynedd nesaf	Gwasanaethau Hamdden	Yr Urdd
Sicrhau bod Canolfannau Hamdden yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn	Penodi Hyrwyddwr iaith ym mhob canolfan hamdden gyda	Hyfforddiant ar gyfer Hyrwyddwyr laith i gael ei gwblhau erbyn Medi 2017 gyda	Gwasanaethau Hamdden Gwasanaethau laith Gymraeg	Yr Urdd Menter Iaith

	rhagweithiol	chyfrifoldeb dros hybu'r Gymraeg yn weledol ac yn ei ddarpariaeth hamdden	phroses fonitro'n cael ei sefydlu i werthuso'r cynnydd o ran defnydd o iaith		
Gweithgareddau yn y Gymuned	Sicrhau cyfranogiad cymunedol a gwirfoddol wrth gynllunio a threfnu gweithgareddau Cymraeg Sicrhau cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion	Sefydlu rhwydwaith o Hybiau Cymunedol i ddarparu gweithgareddau cymdeithasol yn Gymraeg Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen o gyrsiau dysgu i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ar draws y sir	Sefydlu 2-3 Hwb Cymunedol a'u cefnogi i drefnu rhaglen flynyddol o weithgareddau/digwyddiadau poblogaidd Cynyddu'r ddarpariaeth 5% bob blwyddyn	Gwasanaeth Cymunedau a Ffyniant Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwasanaeth Addysg i Oedolion	Menter Iaith Partneriaeth Addysg i Oedolion yn y Gymuned Menter Iaith

Cymraeg yn y Gweithle	Ystyried y posibilrwydd o sefydlu Canolfan Ddiwylliant a Thwristiaeth ym mhen uchaf cwm Cynon	Cynnal astudiaeth ddichonolrwydd i archwilio'r potensial o sefydlu Canolfan Ddiwylliant a Thwristiaeth yn Aberdâr	Chwilio am gyllid a chynnal astudiaeth ddichonolrwydd erbyn Medi 2018	Gwasanaeth Twristiaeth Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio	Llywodraeth Cymru Menter Iaith
	Y Cyngor i gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg	Parhau gyda gwaith Grŵp Llywio'r Gymraeg yn y Cabinet a Gweithgor y Prif Swyddogion	Y Grŵp Llywio a'r Gweithgor i gael adroddiadau rheolaidd gan Swyddog y Gymraeg ynghylch materion cydymffurfio	Pob maes gwasanaeth	
	Cynyddu nifer y staff dwyieithog er mwyn darparu gwasanaethau yn unol â	Cynyddu nifer y staff dwyieithog er mwyn darparu gwasanaethau yn unol â gofynion	Creu Strategaeth Sgiliau Iaith erbyn Medi 2017 gyda'r nod o sicrhau erbyn 2025 bod	Gwasanaethau'r Gymraeg	Adnoddau Dynol

<p>gofynion Safonau'r Gymraeg</p>	<p>Safonau'r Gymraeg</p>	<p>cyfran y staff dwyieithog yn adlewyrchiad o'r Fwrdeistref Sirol (12.3%)</p>		
<p>Mabwysiadu polisi recriwtio rhagweithiol fydd yn galluogi'r Cyngor i ddarparu mwy o wasanaethau dwyieithog yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg</p>	<p>Bydd pob swydd yn nodi bod Cymraeg yn 'hanfodol' fel mater o drefn. Bydd angen i reolwyr ddarparu achos busnes os ystyrir bod y Gymraeg yn 'ddymunol' neu ddim yn angenrheidiol ar gyfer y swydd neu fod gofyniad i ddysgu os na ellir</p>	<p>Strategaeth Sgiliau Iaith yn amlinellu polisi recriwtio i gael ei baratoi erbyn Medi 2017</p>	<p>Adnoddau Dynol</p>	<p>Gwasanaethau'r Gymraeg</p>

	penodi siaradwr Cymraeg			
Mapio lefelau presennol y sgiliau Cymraeg	Cynnal archwiliad o sgiliau iaith staff ac Aelodau Etholedig	Cwblhau archwiliad o sgiliau iaith erbyn Mawrth 2017	Gwasanaethau'r Gymraeg Adnoddau Dynol	Pob gwasanaeth
Darparu cyfleoedd i staff wella eu sgiliau iaith	Darparu cyfleoedd i staff wella eu sgiliau iaith	Cytuno ar raglen hyfforddiant erbyn Ionawr 2017	Gwasanaethau'r Gymraeg	Pob gwasanaeth
Galluogi staff ac Aelodau Etholedig i fod yn ymwybodol o hanes a diwylliant y Gymraeg yn cynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg	Trefnu rhaglen o hyfforddiant Ymwybyddiaeth a Chydymffurfio yn ymwneud â'r Gymraeg a'i chynnwys wrth sefydlu staff newydd	Cytuno ar raglen hyfforddiant erbyn Ionawr 2017	Gwasanaethau'r Gymraeg Gwasanaethau i'r Aelodau Adnoddau Dynol	Pob gwasanaeth

<p>Creu amgylchedd sydd yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg</p>	<p>Creu adnoddau, deunydd hyrwyddo ac effeithiau gweledol sy'n hybu'r defnydd o'r iaith ac yn meithrin parch tuag at ddwyieithrwydd</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Pob gwasanaeth</p>	
<p>Darparu cymorth mewn rwyd ar gyfer siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg</p>	<p>Defnyddio'r fewnrwyd i gyfeirio staff at adnoddau iaith defnyddiol e.e. e-ddysgu, gramadeg ar-lein a gwirwyr sillafu, geiriaduron</p>	<p>Defnyddio'r fewnrwyd i gyfeirio staff at adnoddau iaith defnyddiol e.e. e-ddysgu, gramadeg ar-lein a gwirwyr sillafu, geiriaduron</p>	<p>Gwasanaethau'r Gymraeg</p>	<p>TG</p>

		ar-lein ac offer cyfieithu	ar-lein ac offer cyfieithu		
	Darparu cymorth mewnwyd ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr	Datblygu mewnwyd i gyfeirio staff at gyrsiau a gweithgareddau Cymraeg yn y gymuned	Cwblhau erbyn mis Medi 2017 a diweddarau'n barhaus	Gwasanaethau'r Gymraeg	Menter Iaith Prifysgol De Cymru Canolfan Cymraeg i Oedolion
	Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle	Asesu hoffterau iaith mewn perthynas â gweithrediadau mewnol:- gohebiaeth; ffurflenni; cwynion; adolygiadau perfformiad; anghenion	Asesiad i'w gwblhau erbyn Mawrth 2017	Adnoddau Dynol	Pob gwasanaeth

	<p>Hybu cynlluniau sydd yn dangos yn weledol bod y Gymraeg yn cael ei chrosawu yn y gweithle</p>	<p>hyfforddiant; polisïau staff, cyfarfodydd mewnol ac ati</p> <p>Parhau i ddatblygu mentrau sy'n creu amgylchedd sy'n meithrin y defnydd o'r Gymraeg gan staff, e.e. bathodynau, poster, llinynnau, defnydd o'r logo <i>Cymraeg</i> ar e-bost a'r fewnrwyd, llofnodion e-bost a negeseuon</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Gwasanaethau'r Gymraeg TG</p>	<p>Pob gwasanaeth</p>
--	--	--	----------------	----------------------------------	-----------------------

	<p>Dosbarthu deunydd hybu'r Gymraeg ymysg staff</p>	<p>allan o'r swyddfa</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut i gael cyfieithiad • Llyfryn canllawiau staff – <i>Welsh What's Changed?</i> • Bathodynau, llinynnau, posteri • Llyfryn TGCh: <i>Welsh @your fingers</i> • Prosbectws Cymraeg i Oedolion • Matiau llygoden • Llyfryn <i>Bod yn Ddwyieithog/</i> 	<p>Parhaus</p>	<p>Gwasanaethau'r Gymraeg</p>	
--	---	--	----------------	-----------------------------------	--

		<p><i>being</i></p> <p><i>Bilingual</i></p> <p>Taflen gryno negeseuon corfforaethol</p>			
Datblygu hyder yn defnyddio Cymraeg ysgrifenedig	Gosod Cysill a Chysgeir (gwirwyr iaith a gramadeg Cymraeg) ar gyfrifiaduron ac iPads yr holl staff a'r Aelodau Etholedig	Pob pecyn cyfrifiadurol wedi ei osod ac yn weithredol erbyn mis Mawrth 2017	TG	Pob gwasanaeth	
Datblygu rhyngwyneb a dewislenni dwyieithog ar y fewnrwyd a rhyngwyneb dwyieithog ar gyfer	Cysylltu ag awdurdodau lleol eraill i ymchwilio i fuddsoddiad ar y cyd i ddatblygu rhyngwynebau dwyieithog	Gosod rhyngwynebau dwyieithog erbyn Medi 2017	TG	Gofal i Gwsmeriaid	

cymwysiadau'r we Annog staff ac Aelodau Etholedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol ac mewn cyflwyniadau	Darparu hyfforddiant ar sgiliau cyflwyno yn Gymraeg ac archwilio elfennau ymarferol darparu cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd mewnol	Llunio rhaglen hyfforddiant erbyn Mawrth 2017	Gwasanaethau'r Gymraeg Gwasanaethau i'r Aelodau Adnoddau Dynol	Prifysgol De Cymru Canolfan Cymraeg i Oedolion
--	--	---	--	---

RHAN 2

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Partner Arweiniol	Partneriaid posibl
Addysg – Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar	Cynyddu nifer y Cylchoedd Ti a Fi a'r Cylchoedd	Gweithio gyda'r Mudiad Meithrin a Dechrau'n Deg i sicrhau bod	Cynyddu nifer y Cylchoedd Ti a Fi a'r Cylchoedd	Mudiad Meithrin	Dechrau'n Deg; Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Meithrin	darpariaeth ar gael ac yn hawdd ei chyrraedd i'r holl brif ganolfannau poblogaeth	Meithrin 50%		
Cynyddu nifer y Sesiynau Rhianta/Teuluoedd sy'n cael eu cynnal gan gynllun 'Cymraeg i Blant'	Cynyddu nifer y rhieni sy'n anfon eu plant i addysg CC	Cynyddu nifer y Sesiynau Rhianta / Teuluoedd 50%	Cynllun Cymraeg i Blant	Mudiad Meithrin
Darparu hyfforddiant iaith sylfaenol ar gyfer gweithwyr mewn lleoliadau Saesneg yn	Trefnu sesiynau iaith sy'n briodol ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar	Pob cylch chwarae a meithrinfa gofal oriau dydd i gael cyfle i fynychu hyfforddiant iaith	Prifysgol De Cymru Canolfan Cymraeg i Oedolion	PPA Cymru; PACEY, NDNA Cymru; Dechrau'n Deg

Cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg y Cymoedd	Datblygu darpariaeth ddwyieithog mewn rhai cyrsiau prif ffrwd e.e. Busnes, Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Sicrhau bod unedau CC ar gael mewn pum maes pwnc o leiaf erbyn 2021	Coleg y Cymoedd	Colegau Cymru
Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis modiwlau neu unedau cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg y Cymoedd	Codi mwy o ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr sy'n siarad Cymraeg o ddarpariaeth ddwyieithog sydd ar gael a chyfleoedd am swyddi sydd yn gofyn am sgiliau dwyieithog	Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio rhan o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg 50%	Coleg y Cymoedd	Colegau Cymru
Datblygu'r	Archwilio'r	Cytuno ar	Coleg y Cymoedd	Ysgolion CC

	cysylltiadau rhwng Coleg y Cymoedd ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg	posibiliadau o gydweithredu ar ddarpariaeth CC, yn cynnwys cyrsiau TGAU	raglen gyflenwi gydweithrediad ol erbyn Medi 2017		Addysg a Dysgu Gydol Oes
	Darparu cyfleoedd cymdeithasol i fyfyrwyr coleg gyfarfod a defnyddio'r Gymraeg	Trefnu rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau sy'n boblogaidd ac yn bellgyrhaeddol o ran apêl	Cyhoeddi rhaglen o ddigwyddiadau ar ddechrau pob tymor a'i dosbarthu trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd	Coleg y Cymoedd	Menter Iaith
Trosglwyddo'r Iaith yn y Cartref	Sicrhau bod mwy o rieni'n defnyddio'r Gymraeg fel	Cynyddu nifer y gweithgareddau sy'n cael eu trefnu gan gynllun	Cynyddu nifer y gweithgareddau 100%	Cynllun Cymraeg i Blant	Mudiad Meithrin Prifysgol De Cymru Canolfan

	iaith y cartref	'Cymraeg i Blant' sydd yn annog rhieni i siarad Cymraeg â'u plant			Cymraeg i Oedolion
	Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trosglwyddo'r iaith ymysg oedolion ifanc Cymraeg eu hiaith	Cynnwys rhaglenni ymwybyddiaeth iaith cyffredinol mewn cyrsiau ABCh mewn ysgolion a cholegau	Y Coleg i drefnu cyrsiau ymwybyddiaeth h erbyn 2017- 18	Coleg y Cymoedd	Menter Iaith Addysg a Dysgu Gydol Oes
Cymraeg i Oedolion	Cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg	Cynyddu'r gweithgaredd marchnata ac ymestyn y cyrsiau sydd ar gael ar bob lefel	Cynyddu nifer yr ymrestriadau 30%	Prifysgol De Cymru Canolfan Cymraeg i Oedolion	Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
	Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n datblygu o	Rhoi cymorth ac arweiniad wedi ei dargedu i annog	Cynyddu cyfraddau datblygu i	Prifysgol De Cymru Canolfan	Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

<p>lefelau Mynediad a Sylfaen i gyrsiau lefel Uwch Darparu mwy o gyrsiau iaith yn y gweithle ar lefelau medrusrwydd amrywiol i alluogi mwy o gyflogeion i weithio'n ddwyieithog</p>	<p>dysgwyr i ddatblygu i lefelau rhuglder uwch Cynyddu darpariaeth yn y gweithle yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol ar gyfer dechreuwyr a siaradwyr Cymraeg petrus</p>	<p>lefelau uwch 20% Cynyddu darpariaeth yn y gweithle 100%</p>	<p>Cymraeg i Oedolion Prifysgol De Cymru Canolfan Cymraeg i Oedolion</p>	<p>Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol</p>
<p>Rhoi cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg gyfarfod ac ymarfer eu</p>	<p>Trefnu gweithgareddau cymdeithasol wythnosol a 'sesiynau sgwrs' i gynyddu hyder a</p>	<p>Sefydlu 5 lleoliad yn yr ardal i gynnal cyfleoedd wythnosol ar gyfer defnydd</p>	<p>Prifysgol De Cymru Canolfan Cymraeg i Oedolion</p>	<p>Menter Iaith</p>

	sgiliau iaith	lefelau rhuglder	anffurfiol o'r Gymraeg		
	Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg integreiddio i rwydweithiau a sefydliadau Cymraeg eu hiaith	Cynllunio rhaglen amrywiol o weithgareddau cymdeithasol i ddod â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ynghyd	Llunio calendr blynyddol o ddigwyddiadau a darparu cymorth marchnata	Prifysgol De Cymru Canolfan Cymraeg i Oedolion	Menter Iaith
	Darparu cyfleoedd ar- lein i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg	Sefydlu ystafell sgwrs/fforwm neilltuol ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn yr ardal	I'w sefydlu erbyn mis Medi 2017	Prifysgol De Cymru Canolfan Cymraeg i Oedolion	Menter Iaith
Gweithgaredd au yn y Gymuned	Defnyddio technoleg gyfathrebu fel llwyfan gwybodaeth a rhwydweithio ar	Datblygu 'Echlysur' ymhellach fel rhwydwaith cyfathrebu sy'n darparu gwybodaeth i	Ymestyn y gwaith o farchnata'r rhwydwaith a gosod targed pum mlynedd o	Menter Iaith	Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Ysgolion CC

	<p>gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr</p> <p>Defnyddio technoleg gyfathrebu i gadw mewn cysylltiad â disgyblion ar ôl iddynt adael ysgolion uwchradd CC</p>	<p>siaradwyr Cymraeg a dysgwyr am weithgareddau, cyfleoedd am swyddi ac ati</p> <p>Sicrhau bod manylion cyswllt cymaint o ymadawyr ysgol â phosibl yn cael eu hychwanegu i'r rhwydwaith</p>	<p>5,000 o gysylltiadau</p> <p>Casglu manylion cyswllt yn flynyddol</p>	<p>Menter iaith</p>	<p>Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Ysgolion CC</p>
	<p>Ailfywiogi Clwb y Bont ym Mhontypridd fel Canolfan Gymraeg sy'n ffynnu ar gyfer</p>	<p>Gweithio gydag ymddiriedolwyr Clwb y Bont i gynnal astudiaeth ddichonolrwydd, yn cynnwys achos</p>	<p>Chwilio am gyllid a chynnal astudiaeth ddichonolrwyd d erbyn Ionawr 2018</p>	<p>Clwb y Bont</p>	<p>Menter Iaith Cyngor Llywodraeth Cymru</p>

	ystod o wahanol bartneriaid	busnes, i ddatblygu'r ganolfan fel pwerdy ar gyfer adfywio'r iaith			
--	-----------------------------------	--	--	--	--

Gweithredu a monitro

Bydd gofyn i wasanaethau Cyngor ddatblygu eu Cynlluniau Gweithredu Lleol eu hunain er mwyn nodi sut y byddan nhw'n bwrw'r targedau hynny sy'n ofynnol os yw'r Strategaeth i gael ei gweithredu'n llwyddiannus erbyn 2021.

Bydd cynnydd yn erbyn targedau yn cael ei fonitro ar lefel weithredol gan Brif Swyddogion y Gymraeg a bydd diweddariadau yn cael eu darparu ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli bob chwe mis.

Bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu darparu ar gyfer Grŵp Llywio Iaith Gymraeg y Cabinet yn ôl yr angen, ond ddim yn llai aml na dwywaith y flwyddyn. Bydd gwybodaeth ynglŷn â chyflawniad gwasanaethau'r Cyngor yna'n cael ei rhoi i Aelodau o'r Fforwm Iaith.

Bydd aelodau o'r Fforwm Iaith yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y targedau sydd wedi'u nodi yn Rhan 2 o'r Cynllun Gweithredu yn eu cyfarfodydd, a bydd Cadeirydd y Fforwm Iaith yn rhoi adborth i Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg y Cabinet er gwybodaeth.

Yn y modd yma, y gobaith yw y bydd y Cyngor ac aelodau o'r Fforwm Iaith yn gallu gweithio mewn ffordd gydweithrediadol er mwyn bwrw'r targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir erbyn 2021, a mynd i'r afael ag unrhyw anawsterau ar y cyfle cyntaf fel bydd modd datrys problemau yn ddiymdroi a sicrhau cynnydd.